



www.lleennatur.com

# Bwletin Llên Natur 23

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*

Rhif Elusen Gofrestredig : 1126027

Ionawr 2010



## Mwynhewch y cofnodi yn 2010

### Beth welaist ti ar lawnt y Plas...

“Beth a welaist ar y lawnt,  
Gyda'i wyneb gwyn, edifar?  
Tlws yr eira, blodyn Mawrth,  
Wedi codi yn rhy gynnar.”

Dyna ddywedodd Eifion Wyn am yr eirllysiau, ac i Richard Morgan yn ei Lyfr Blodau (1909): “Efe yw blodyn gobaith, a blaenffrwyth blodau'r flwyddyn”. Gwyliwch amdanynt unrhyw funud mewn gerddi, ac yma ac acw ar ochrau ffyrdd – yn enwedig os oes tai, plasdy, eglwys neu olion hen fynachlog wrth ymyl. A'r rheswm am hyn ydi mai wedi eu plannu neu ddianc o erddi mae'r than fwya ohonynt. 'Does dim sicrwydd llwyr bod eirllysiau yn frodorol i Brydain, a be sy'n ffwandro pobol sy' ishio gwybod eu hanes ydi bod eirllysiau, mae'n debyg, wedi cael eu lledaenu drwy'r wlad gan fynachod yn y Canol Oesoedd i'w plannu ger y mynachlogydd er mwyn addurno capeli'r mynachlogydd adeg Gwyl Fair y Canhwylau, pob Chwefror 2il. Gwnaed hynny am fod gwyn y blodau yn cynrychioli purdeb y Forwyn Fair – sy'n elfen mor bwysig



yn ngredo'r Eglwys Gatholig – ac felly oedd hi yma hefyd yn y Gymru Gatholig cyn i Hari'r 8fed ffræo hefo'r Pâb a meddiannu'r mynachlogydd. Ac am mai wedi eu plannu y tu allan i'w cynefin naturiol y mae'r rhan fwya o eirllysiau, anamal iawn y byddant yn hadu yma. A hynny am eu bod yn blodeuo'n llawer rhy gynnar i'r pryfed a'r gwenyn fuasa'n eu peillio petaent yn tyfu yn Ffrainc neu Lydaw. Ond, er y cysylltiad hefo'r Forwyn Fair a Gwyl y Canhwylau mae d'wad ag eirllysiau i'r tŷ yn dal i gael ei ystyried yn anlwcus – ac yn beryg o achosi marwolaeth yn y teulu. Ai y ffaith bod Eirllysiau yn tyfu mor gyffredin mewn mynwentydd sy' tu ôl i'r goel yma? Ac i rai pobl mae hyd'noed siâp y blodyn yn eu hatgoffa o farwolaeth – am ei fod fel amdo yn amgau corff bychan. Syniad arall ydi y byddai dwad ag eirllysiau i'r tŷ yn yr 16g – 17g yn eich rhoi mewn peryg o gael eich cyhuddo o fod yn Gatholig – oherwydd y cysylltiad hefo'r Forwyn Fair, ar adeg pan oedd Catholigion yn cael eu herlid. Byddai dwad ag eirllysiau i'r ty yn amharu nid yn unig arnoch chi a'ch teulu ond, hefyd, fe fyddai llaeth y fuwch yn mynd yn ddyfrllyd a'r menyng yn wyn.

Mae'r cysylltiad hefo llaeth yn enw gwyddonol y blodyn – *Galanthus nivalis* – 'Galanthus' yn golygu 'blodyn lliw'r llefrith' a 'nivalis' yn golygu eira. Mae'r holl enwau lleol Cymraeg yn tystio i boblogrwydd eirllysiau dros y cenedlaethau hefyd. Yr eirllys a blodyn yr eira ydy'r ddau enw mwya cyffredin – drwy'r gogledd a'r de, a lili wen fach yn dyn wrth eu sodla – a lili fach yr eira yn amrywiad bach ciws ar yr enw hwn o Forgannwg, a tlws yr eira o Sir Gaernarfon. Ym Maldwyn mae'n cael ei galw'n Prydferth Ôd, neu jyst Yr Ôd. Enwau eraill ydi cloch maban, cloch yr eiriol ag eirdlws. Mae cyfanswm o ryw 18 o enwau wedi eu cofnodi i gyd yn y gwahanol lyfrau [Blodau'r Maes a'r Ardd, Gwenllian Awbery (1995), ac Enwau Cymraeg ar Blanhigion, Dafydd Davies & Arthur Jones (1995)].

[Addasiad o sgript ddarlledwyd ar 'Galwad Cynnar', Radio Cymru, Chwefror 25ain, 2006 gan Twm Elias, Gyda diolch i BBC Radio Cymru a geidw pob hawl]

Cewch weld holl enwau Dafydd Dafis ac Arthur Jones ar blanhigion Prydain ar y wefan - cliciwch [Geiriadur Enwau a Thermau](#)

## Cychod gwenyn

Wrth i Wil Jones, Croesor a minnau (DB) fod wrth ein gwaith yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd



Maentwrog rhywbryd yn y 1980au dyma sylweddoli am y tro cyntaf beth oedd rhain - onid llefydd i gadw cychod gwenyn? Oes yna rywun sydd yn gwybod mwy?

## Mwy am y paternostar (Rhifyn 22)

Mi oedd paternoster yn gyfarwydd iawn i mi yn y blynyddoedd maith 'na gymerodd i mi ddarganfod nad oeddwn yn 'sgotwr naturiol! Dwi'n siwr fod gen i ambell i "rig" wedi ei glymu yn barod yma yn rŵla. Dwi'n meddwl mai'r peth oedd yn nodweddiadol am paternoster oedd fod tamaid o weiren neu blastig stiff yn cal ei ymgorffori i ddal y "plentyn" i ffwrdd oddi wrth y prif lein. Yn ddiweddar dwi'n deall fod sgotwrs yn ffordd o ddefnyddio y tamaid plastig o "cotton buds" i'r perwyl yma. Drwy gyd-digwyddiad hen gotton buds yw un o'r eitemau mwy niferus o sbwriel sy'n golchi fynyar ein traethau. Nid bai y pysgotwyr ond oherwydd eu bod yn hawdd i fflysho lawr y pan ar ol eu defnyddio!

Rhys Jones

## Gaff a dreifar (tryfar)




Cyfrannwyd y llun gan Phil Williams. Ai gair y gogledd ddwyrain yw dreifar am tryfar

Dyma ddau erfyn dieflig y potsiar afon wedi eu gwneud yn yr efail gan of yn ôl pob tebyg. Mae'r gaff yn dal yn erfyn sydd yn cael ei ddefnyddio heddiw ynghyd a gwialen wrth gwrs ond wedi ei wneud â metel llawer ysgafnach a llyfnach a heb yo adfach ("barb") arno. Wedi dal yr eog gyda gwialen byddai'r gaff yn cael ei ddefnyddio i godi'r eog i'r lan. Ond yn ôl pob tebyg byddai'r un yn y llun yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd anghyfreithiol, sef bachu pysgodyn a fyddai yn cuddio o dan dorlan o fewn cyrraedd y potsiar a byddai'r adfach yn rhwystro i'r eog ddianc.

Y dryfar wedyn yn erfyn ciaidd - rhoddid coes hir ar hwn a byddai yn cael ei drywanu i'r eog fel na fyddai dim cyfle i'r creadur ddianc oddi wrtho. Byddai hwn yn gwneud tipyn o lanast ar y pysgodyn. Mae'n anghyfreithlon i'w gario heb son am eu defnyddio.

Tom Jones, cyn geidwad afonydd


## Ein "Iluniau" o law mis Tachwedd, 2009



Graff o fesur y glaw misol acw yn y Waunfawr o'i gymharu â chyfartaledd y deng mlynedd ar hugain y bum i wrthi yn cofnodi. Mae'r mesuriad ar gyfer Tachwedd nid yn unig ymhell yn uwch na'r cyfartaledd i'r mis hwnnw, ond yn gwbl eithriadol drwy'r flwyddyn (DB).



"Llifogydd yn Llanrwst, Tachwedd 18, glaw mawr dros nos, afon Conwy wedi gorlifo" meddai plant dosbarth Eryri, ysgol Capel Garmon



Carafon - efo "o" - oedd sylw gwamal Griffith Williams i hwn: "Bwlch Llanberis - tywydd eithafol canol Tachwedd 2009. Roedd y garavan wedi parcio wrth ochr y ffordd fawr. Cafodd ei chwythu trwy'r wal ac i'r afon. Galwyd ar y tim achub i gael y bobl i'r lan."

*Gŵyl y Ceiliau: dydd Llun cyntaf ar ôl ystwyll pan ddychwelai'r gweithwyr i'r gwaith (11 Ionawr 2009)*

## Aurora borealis - Goleuni'r Gogledd

Dyma gofnod o ddyddiadur y diweddar Owen T. Griffiths, Rhos y Ffordd, Llangristiolus, pan yn lanc ysgol yn 1938, gyda chaniatad Mair ei wraig

26 Ionawr 1938: Wel dyma ddiwrnod oerach er ei bod yn chwythu llai. Wel dyma olau neithiwr yn yr awyr a beth oedd o ond ryw "NORTHERN LIGHTS" neu rywbeth.

A cherdd Thomas Edwards, Twm o'r Nant, (diolch i Cerys Jones, Aberystwyth) am oleuni a chomed a ymddangosodd yn 1769 a ddefnyddiodd i gefnogi'r achos yn erbyn Pabyddiaeth

Beth yw gwaith yr arwyddion maith, sy'n lanwaith y leni?


Y Seren gynffon, ar goleuni;

Ond rhybydd hynod o'n trueni.

Ewch i wefan Llên Natur i gael cofnodion eraill o Oleuni'r Gogledd

## Cnicht

Mae erthygl Aled Jones (Rhifyn 22) yn addysgol ac yn ddi-ddorol dros ben - yn ddigon i anfon dyn i ddarlenn cerddi JMJ a TGJ. Y rheswm i mi ofyn am yr enw Cnicht [y cyfeiriodd ato] yw am fod erthygl gan Tudur Owen,



Y Cnicht gan Ifor Owen o'i gyfrol Mewn Meysydd Eraill (Gwasg Carreg Gwalch 2009)

Lewis Jones a J Lloyd-Jones ddweud hynny yn blwmp ac yn blaen).

Deric John

Croesor am y geirdarddiad yn rhifyn diweddaraf **Llafar Gwlad (Rhif 106 tud 15.)**.

Dw i fy hun ddim wedi cael fy mherswadio gan ei osodiadau. Dyw e ddim yn gallu gweld sut bod enw Hen Saesneg neu Ganol wedi ei roi yn enw ar un o fynyddoedd cwm Croesor, a dyw e ddim yn derbyn taw 'cniht' yw'r geirdarddiad (er i Ifor Williams, Bedwyr

Dyma gasgliad Tudur Owen yn yr erthygl dywededig ar ôl ystyried y dystiolaeth:

- 1) O'r gair Saesneg Knight - na yn bendant
- 2) O'r Wyddeleg am fynydd pigfain - efallai [ni rydd enghraifft]
- 3) Fersiwn o air Cymraeg - cnech, cnecht ("sy'n golygu pigwrn, cumen, pigyn" meddai), cym, gyrrn ayyb. - efallai
- 4) Fersiwn o air Cymraeg - o'r un tarddiad a cnuch a cnich ("a olyga 'codiad" neu *erection*...Tybed ai 'ysfa rywiol' oedd ystyr gwreiddiol y gair?" meddai)

Gennyf innau (Gol.) ambell sylw ar y drafodaeth: a) hoffwn gyuno y dylid disgwyl yr enwau hynaf Celtaidd, neu gyn-Celtaidd efallai, ar nodweddion amlwg a hir-sefydlog fel mynyddoedd ac afonydd ond nid yw hyn yn real di-eithriad o'r hyn a welaf (ee. Llyn Cwellyn oedd Llyn Trewenni yn y Canol Oesoedd ac afon Dwyfach oedd afon Fai ar fap Saxton); b) gochelwn rhag barnu ystyr hen enwau wrth eu hystyron cyfoes, fel cnuch i olygu'r 'ysfa fawr' (cymharer y ffaith fod "Eryri" ac aflwydd "yr eryr" yn gytras ond nid yw ystyr modern yr ail o angenrheidrwydd ynghlwm yn y cyntaf - onid rhywbeth sy'n codi uwchben y tir neu'r croen o'i gwmpas sydd yn eu cysylltu?).

Gyd a diolch i Llafar Gwlad. a Gwasg Carreg Gwalch

## Un diwrnod - dau gofnod (26 Ionawr 1884)

*Ochtertyre, Crieff: An exceptionally stormy week ends today with the lowest unchallenged pressure reading ever recorded in the British Isles - 925.6 mbar. A violent gale ensues, blowing down a million trees on one Scottish estate alone.*

Woodward A. & Penn R., The Wrong Kind of Snow (Hodder & Stoughton)

Aberdaron, Llyn: Bwrw eira neithiwr. Gwlaw heddyw a gwynt mawr. Boddodd gwraig Hary Hughes Brynkir...cael corph dynes yn Glan Morfa Bychan.

Dyddiadur W Jones, Moelfre, Aberdaron

Dyfyniadau helaeth o'r ddau ddyddiadur yma yn **Fferm a Thyddyn**, 42, Calan Gaeaf 2008

## Dyma beth yw "Green Motoring"

Car sydd yn rhad i'w redeg, dim petrol, yswiriant na threth na allyriant CO2! "low mileage" a ballu.....

Mi ddes ar draws hwn ar Ynys M e t c a u t (Lindisfarne) yn yr



Hên Ogledd y llynedd. Citroen 2CV yw'r ddelwedd.

Cyfrannwyd y llun a'r sylw gan Ifor Williams

## Gwalchwyfyn y benglog....o'r ORIEL



Mae un o blant dosbarth Conwy, Ysgol Bro Gwydir wedi dod a gwyfyn i'r ysgol. Cafodd y plentyn y gwyfyn tra ar wylliau yn Lanzarote. Ar ol edrych ar y we, rydym yn meddwl mae 'Death Head Hawk moth' ydy o. Oes enw Cymraeg arno? Ydy o'n byw yng Nghymru? Neges a llun gan

Dosbarth Conwy, Ysgol Capel Garmon

Llun gwerth chweil. Ia, y **Death Head Hawk moth** ydi hwn neu **Gwalchwyfyn y benglog** yn y Gymraeg. Pryd gawsoch chi o? Wyddwn i ddim bod y gwyfyn hwn yn byw ar ynysoedd y Gran

Canaria ond mae'n berffaith bosibl wrth gwrs. Ond efallai mai wedi cyrraedd o wledydd cyfagos ydoedd, fel y gwnaeth y gwahanol rai sydd wedi eu cofnodi yn ein DYDDIADUR ar y wefan hon. Mewnbynwch y ddau enw uchod, yn eu tro, i gael cyfres o gofnodion o Gymru. Ac edrychwch ym Mwletin Rhif 7 ar y wefan am hanes magu chwilerod y gwyfyn hwn ar ol haf poeth 1976 a ddeorodd dydd Nadolig. Diddorol os mai ym mis Rhagfyr y daeth hwn i'r fei hefyd. Gwglwch i gael hanes y creadur sydd yn gwneud swm llygoden tra'n ymweld a chychod gwenyn.

## ...a thamaid i aros pryd o'r DYDDIADUR

24 Awst 1987 Adroddiad ar Radio Cymru am death head hawkmoth yn cyrraedd Ynys Mon. Awgrymodd Huw John Huws mai'r un tywydd a ddaeth a'r tywod o'r Sahara wythnos diwethaf gludodd y gwyfynod yma (haenen dywod dros geir yr ardal er na welais i ddim byd) DB

*Blwyddyn newydd dda i chwi*

## Mordaith David Thomas ar yr SS Auracania (o Ddyddiadur Llên Natur)

**16 Jan 1884:** *At 12 we departed from Birkenhd. Abreast of Bardsey Is. light at 7 pm Strong wind and fine during the day.*

**26 Jan 1884:** *Fine day & strong increasing breeze,*



Mynydd Teneriffe ( El Pico Teide ) dan eira  
[Wikipedia Commons]

*we passed a sailing ship today. At noon we were abreast of the Southern point of Teneriffe Is. Teneriffe summit was*

*visible covered with snow. One of the passengers picked up from the deck a flying fish over a foot long. [mis Ionawr fues i yno ac roedd eira ar y mynydd. Rhys Jones]*

**29 Jan 1884:** *Strong breeze and dull 1st part, very clear 2nd part. Arrived at St Vincent Is of [sic] the Cape De Verd I. at 7.20 Few of the passengers left us here (3rd class boats full of fruits were alongside. Manned by niggers some of the niggers were well dressed, others naked (most of the boys). The passengers were throwing money over the side and the little niggers use to dive for the money though the place full of sharks. The sailors changed their meat for oranges from the boats.*

**30 Jan 1884:** *Strong wind and pleasant weather...A Nigger stowed himself away in the coal at St. Vincent he came out today and was sent to the forecastles to get his meals and to work with the sailors on deck...some fire men managed to steal a bunch of bannanas from the 3rd Class passengers.*

**14 Feb 1884:** *Moder breeze cold & cloudy weather. Two or three passengers were amusing themselves in shooting sea birds. One has a fouling piece. They didn't manage to bring one down though the Birds quite near to them within half the ship's length. [Heibio Quarantine Island, Montevideo tua chulfor Magellan a Possession Bay]*

**17 Feb 1884:** *I could see 2 or 3 bonfires ashore and I could distinguish about 1/2 a dozen Patagonians walking about the fire through my telescope...The worst of it there is no lighthouse*

Dyddiadur Ilong David Thomas, (Llandwrog) 1884-1892, Archifdy Gwynedd

*Tehuelches is a collective name for some native tribes of Patagonia and the southern pampas region. They are also called Patagonians. According to the 2001 census, there were 4,300 Tehuelche in the provinces of Chubut and Santa Cruz, and a further 1,637 in other parts of Argentina. The Tehuelche originally spoke Tehuelche, a Chon language, but later, with the Araucanization of Patagonia, many tribes started to speak variants of Mapudungun. Actually, their own name, Tehuelche, comes from that language. Primarily they are found in the province of Chubut. They have inhabited this area for about 12,500 years. In the case of a Tehuelche man dying, all of his animals are killed, all of his possessions are burned, and all of the meat from his slaughtered horses is distributed to relatives. The dead male is taken by his relatives and buried in a sitting position, facing east with a pile of stones placed over his grave. He is usually buried sewn up in a mantle or poncho. [Wikipedia]*

## "A Week's Work in Wales"

Cefais restr planhigion o gyffiniau llyn Padarn mewn dyddiadur disgybl ysgol o'r enw Annie Robinson o Crewe, swydd Caer, a fu'n aros yn Llanberis ym mis Mehefin 1912. Roedd y planhigion y cyfeiriodd Annie atynt yn gymysgiad o rai sydd yn tyfu yn gyffredin yn yr ardal heddiw (ee. eithin, ffa'r gors), rhai sydd yn anhebygol o fod yn tyfu yno heddiw er yn gyfarwydd mewn rhai ardaloedd yn y gogledd yma (plantain *Alisma*) ond a allasai fod yn tyfu yn nyffryn Llanberis yn ei chyfnod, ac yn drydydd, planhigion a oedd mae'n debyg wedi eu camenwi ganddi (ee. *Valisneria*). Nododd un planhigyn - y *willow saffron* - nad oes gen i mo'r syniad lleiaf beth a olygai...unrhyw syniad rhywun?

A'u cymryd yn eu tro, ym manau gwlypaf y corsdir rhwng Pen llyn Padarn a hen lyn Bogeilyn, Cwm y Glo y tyfai ffa'r gors yno, fel mae'n siwr ei fod yn tyfu yno heddiw. Mae tair dalen hwn yn ymdebygu'n rhyfeddol i ffa a phetalau gwyn ei flodau o ansawdd lliain baddon. Er fod y llyriad dŵr (*Alisma*) yn weddol gyffredin heddiw mewn rhai corsydd mae'n anhebyg o fod wedi tyfu erioed yn fan hyn oherwydd sumi'r dwr. Ond...mae yna blanhigyn tebyg sydd yn perthyn yn agos i *Alisma* o'r enw *Luronium natans*, sef llyriad-y-dwr arnofiol a gafodd ei (ail-ddarganfod gan Andy Jones yn Llyn Padarn yn 1997\* Mae'r cyfeiriad at *Vallisneria*, neu rhuban y dwr, yn ddiddorol. Fy unig gof ohono yw ei brynu mewn siop pysgod trofannol i addurno acwariwm. Dywed y llyfrau arbenigol mai prin ac achlysurol ydyw fel planhigyn gwyllt, mewn dwr sydd wedi ei dwymo, amodau anhebygol iawn os nad amhosibl yn 1912. Cyfeiriodd Annie hefyd at *Elodea*, planhigyn a gyrrhaeddodd Prydain o ogledd America yn 1842 i berwyl tebyg. Tybed a oedd Annie yn cadw rhyw fath o danc pysgod yn ei chartref yn Crewe ganrif yn ôl fel yr oeddwn innau acw yn y Waunfawr hanner canrif yn ddiweddarach?

\*Diolch i gofnodwraig planhigion yr hen sir Gaernarfon Wendy McCarthy.

## Enfys wen

Gwelais hwn am bum munud wedi chwech nos fawrth



Rhagfyr y cyntaf 2009. Fel y tybiwch roedd hi'n dywyll (yn wyntog ac yn glawio a'r lleuad y tu cefn i mi). Dydi'r llun

ddim yn dangos y tywyllwch (y camera wedi ei osod ar 1600ISO 8 eiliad o noethiad ar f/3.5 +hanner stop) sydd yn golygu bod y camera wedi gweld hwn fel pe tai yng ngolau dydd. I'r llygad dim ond fel enfys lwyd oedd hi, ond mae'r lliwiau i'w gweld yn glir gan y camera. Rwyf wedi tywyllu'r llun hefyd!

Ifor Williams

A dyma gofnododd Edward Llwyd yn ei *Parochialia* yn 1699:

*LHAN VAIR DYFFRYN CLWYD*

*Y Kreigie: The Rocks*

*A Rainbow was seen here in ye night July 27 [16]99*